

## HYRWYDDO EICH CLWB A RECRIWTIO AELODAU

### Recriwtio Aelodau

Mae pobl sy'n chwilio am glwb chwaraeon newydd angen gwybod:

1. Eich bod chi'n bodoli
2. Bod lleoedd ar gael gyda chi
3. Beth rydych chi'n ei gynnig, ble a phryd

### Awgrymiadau



1

**Beth am gynnal Diwrnod Agored?** (cofiwch wahodd aelodau cyfredol, trefnu gweithgareddau hwyl, hyrwyddo i'r gymuned ehangach)

2

**Treuliwch amser yn eich cymuned leol** (pacio bagiau yn yr archfarchnad, cynnal achlysur golchi ceir, mynychu achlysuron lleol)



3

**Defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol** (cyfathrebu gydag aelodau cyfredol a chysylltu ag aelodau newydd)

### Pethau eraill i'w hystyried...

1. Cysylltu ag ysgol leol - beth am gynnal i gynnal clwb ar ôl ysgol a hyrwyddo eich timau iau?
2. Archwilio cysylltiadau â busnesau lleol - efallai byddwch chi'n dod o hyd i nawdd neu wobrau ar gyfer y raffl - neu hyd yn oed aelodau newydd!
3. Rhannu newyddion y clwb yn y wasg leol - anfon adroddiadau o'ch gemau a hyrwyddo achlysuron
4. Trefnu achlysuron cymdeithasol - mae'r agwedd gymdeithasol sy'n gysylltiedig â chwaraeon yn bwysig i rai pobl felly gwnewch yn siwr eich bod chi'n hyrwyddo'ch gweithgareddau 'oddi ar y cae'

### Cyfryngau cymdeithasol

**Mae nifer o glybiau yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn...**

1. Creu cymuned ar-lein ar gyfer ei aelodau
2. Recriwtio aelodau newydd neu wirfoddolwyr
3. Codi ymwybyddiaeth o'r clwb
4. Denu cefnogaeth leol
5. Dod o hyd i nawdd

### Aros yn ddiogel ar-lein...

1. Byddwch yn effro i'r peryglon
2. Rhaid diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed
3. Lluniwch bolisi cyfryngau cymdeithasol

### Pa lwyfannau i'w defnyddio?

#### Twitter:



- Cyhoeddi negeseuon byr a syml
- Cysylltu ag ysgolion, clybiau chwaraeon eraill a'ch Corff Llywodraethu Cenedlaethol
- Da ar gyfer rhannu cyhoeddiadau'r clwb

#### Facebook:



- Cyfathrebu ag aelodau yn rhan o grŵp caeedig
- Hyrwyddo'ch clwb gan ddefnyddio tudalen
- Cysylltu â'r cyhoedd
- Ysgrifennu negeseuon, creu achlysuron ac anfon gwahoddiadau

#### Instagram:



- Arbennig ar gyfer rhannu lluniau a fideos o'ch sesiynau hyfforddi neu gemau
- Cynyddu nifer y bobl sy'n gweld eich cynnwys trwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'stori'
- Nodweddion gwych i'ch helpu chi i greu cynnwys sy'n dal sylw

Ewch i [www.atebionclwb.cymru](http://www.atebionclwb.cymru) i weld nifer o dempledi a syniadau

### SUT RYDYN NI'N GALLU HELPŪ?

- Ein gwefan: Mae gyda ni fap clybiau chwaraeon lle mae modd i chi hysbysebu'ch clwb.  
Ewch i: [www.rctcbc.gov.uk/clwbchwaraeon](http://www.rctcbc.gov.uk/clwbchwaraeon)
- Ein cyfryngau cymdeithasol: Mae modd i ni hyrwyddo'ch clwb ar y cyfryngau cymdeithasol. Anfonwch eich manylion chi i [chwaraeonrhct@rctcbc.gov.uk](mailto:chwaraeonrhct@rctcbc.gov.uk)

→ Cysylltiadau â Chlybiau Ysgol: Mae modd i ni eich helpu chi i gysylltu ag ysgolion a chlybiau lleol.  
E-bost: [chwaraeonrhct@rctcbc.gov.uk](mailto:chwaraeonrhct@rctcbc.gov.uk)

→ Marchnata ac astudiaethau achos: Os ydych chi'n gweithio gydag un o'n swyddogion ar gynllun, efallai bydd modd i ni gynnig cymorth marchnata a datblygu astudiaeth achos ar ôl cwblhau'r gwaith.

